

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH,

12fed EBRILL 2022 AM 7.00 O'R GLOCH YNG NGHANOLFAN TALYSARN

PRESENNOL - Dafydd Thomas (Nebo - Cadeirydd), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts (Llanllyfni), Barry Bracegirdle, Ceri Owen, Erfyl Williams (Penygroes), Gareth Jones, Harry Owen (Talysarn) a'r Cynghorydd Judith Humphreys.

YMDDIHEURIADAU – Dylan Herbert, OP Huws, Heledd Gwilym, Justin Davies, Peter Bridges a Siân Dafydd.

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dilwyn Lloyd a Chraig ab Iago.

2. DATGAN BUDDIANT - datganwyd gan Dafydd Thomas a Harry Owen am Gae Dolbebi ac y byddent yn gadael y cyfarfod pan fydd y pwynt yma yn cael ei drafod.

3. GWADD - Ben Gregory - croesawyd Ben i'r cyfarfod gan ei fod wedi ei wahodd i drafod Menter Iaith a Hunaniaeth. Rhoddwyd y sgwrs drosodd i Ben, a diolchodd am y gwahoddiad. Esboniodd ei fod o wedi bod yn gweithio gyda Dyffryn Nantlle 2020 a Siop Griffiths a bod Siop Griffiths wedi derbyn arian gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r iaith a'u bod wedi bod yn derbyn oddeutu £3000 y flwyddyn ar gyfer hyn. Esboniodd ar gyfer pa bethau yr oeddynt wedi bod yn defnyddio'r arian ers 2012 a'i fod wedi bod yn llwyddiannus iawn. Enghreifftiau oedd Y Clwb Ffilm, LleChi, Baneri Penygroes a hefyd bod cerflun ar y gweill. Dywedodd bod Menter Iaith a Hunaniaeth yr un fath a dywedodd mai nawr yw'r amser iawn i ddechrau trafod hyn gan mai ond un Fenter Iaith sydd yn y Gogledd a bod llywodraeth Cymru yn siarad am ariannu mwy o fentrau yn lleol yn hytrach na sirol. Mae popeth mae Siop Griffiths yn wneud drwy'r Gymraeg ac mae'r staff i gyd yn Gymraeg yno. Yng nghyfrifiad 2011 roedd 82% o boblogaeth Dyffryn Nantlle yn siarad Cymraeg ond disgwylir i'r canran hwn fod yn llai pan ddaw canlyniadau cyfrifiad 2021 allan. Rhoddwyd cyfle i'r cynghorwyr holi cwestiynau a holwyd sut yr oedd Ben yn meddwl buasai'r ffordd orau i symud ymlaen gyda hyn? Dywedodd bod angen targedu oedolion a rhieni yn ogystal â phlant a phobl ifanc a bod angen cyd-weithio gyda mudiadau eraill o fewn y Dyffryn. Y teimlad o fewn y cyngor cymuned yn dorcalonnu bod nifer o blant y Dyffryn yn mynychu ysgol saesneigaidd ym Mangor a bod gan Gyngor Gwynedd le i ateb pam bod hyn yn cael digwydd. Gofynnwyd i'r clerc yrru llythyr i Gyngor Gwynedd i holi am bolisi iaith Gymraeg yr ysgol dan sylw. Holwyd a fuasai posib rhedeg rheol Gymraeg pan fydd y Clwb Ieuenctid yn dechrau? Judith Humphreys am edrych fewn i weld a fuasai hyn yn bosib. Gofynnwyd a oes posib cynnal rhywbeth i addysgu pobl am yr iaith a'i phwysigrwydd? Dywedodd Ben bod posib cynnal rhywbeth ond buasai angen cyd-weithio ar hyn, ee cael y Cyngor Cymuned, Yr Orsaf ac ysgolion yr ardal i gyd-weithio. Crybwyllwyd bod is-bwyllgor wedi ei benodi ar gyfer y Fenter Iaith a chynigwyd efallai y buasai Ben yn medru cyd-weithio gyda'r is-bwyllgor hwn? Diolchwyd i Ben am ei amser a cymerwyd y cyfle i longyfarch yr Orsaf ar ennill Gwobr Dewi Sant yn ddiweddar.

4. CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD 8 MAWRTH 2022 - codwyd bod ambell gamsillafu angen eu cywiro yn y cofnodion - y clerc i wneud hyn. Cynigiodd Barry ac eiliodd Ceri fod y cofnodion yn gywir fel arall a chytunodd pawb.

5. MATERION YN CODI O'R CYN COFNODION AC YMATEBION CYNGOR GWYNEDD - Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd dal yn chwilio am leoliad ar gyfer y Clwb Ieuenctid a dywedodd Judith ei bod yn disgwyl ymateb gan Siôn Bryn ynglŷn â dau safle y maent wedi bod yn edrych arnynt. CPD Talysarn Celts - angen mynd ar ôl Daniel Lewis Cyngor Gwynedd gan nad oes dim ymateb wedi dod ganddo yn dilyn o'r cyfarfod a gafwyd ar y safle yn ddiweddar. Hefyd angen dilyn fyny i weld pa bryd fydd y trydanwr ar gael i fynd i'r ystafelloedd newid i gario allan y profion sydd angen eu gwneud yn yr ystafelloedd newid. Trafodwyd ynglŷn ar cwynion a oedd wedi eu rhoi ar safleoedd cymdeithasol a phenderfynwyd yn unfrydol i roi neges ar dudalen 'Facebook' y Cyngor Cymuned bod rhaid i bob sylwad/cwyn ddod yn ffurfiol drwy'r clerc i'w roi o flaen y Cyngor ac na fydd y cyngor yn ymateb i ddim sydd yn cael ei roi ar y cyfryngau cymdeithasol, a hefyd pwysleisio mai gwirfoddolwyr ydi'r cynghorwyr i gyd.

6. ADRODDIAD GAN Y CYNGHORWYR SIR – roedd pawb wedi derbyn copi o adroddiad Judith ymlaen llaw a rhoddwyd cyfle i bawb godi unrhyw beth o'r adroddiad. Diolchwyd i Judith gan Gwyndaf am ei gwasanaeth a'i gwaith ar hyd y blynyddoedd fel cyngorydd - Diolch.

7. CYFARFODYDD IS-BWYLLGORAU - IS-BWYLLGOR CYLLID 30 MAWRTH 2022 - Aethpwyd drwy'r cofnodion o'r cyfarfod ac esbonio beth a drafodwyd. RHEOLIADAU ARIANNOL - Diolchwyd i Siân am edrych dros y rheoliadau cyllidol a rhoi sylwadau. Holodd Gareth ynglŷn â'r templed a oedd wedi ei dderbyn gan Unllais. Trafodwyd a chynigwyd i dderbyn y newidiadau yr oedd Siân wedi ei nodi a gofyn i Gareth edrych ar y templed gan Unllais ac os oedd yn gweld rhywbeth yr oedd yn meddwl a oedd yn bwysig ac a ddylid ei ychwanegu i reoliadau Cyngor Cymuned Llanllyfni yna iddo godi hyn yn y cyfarfod nesaf os oedd yn fodlon. Cytunwyd gyda hyn. CYFRIFON 2021/22 - adroddodd Dafydd beth a drafodwyd a hefyd beth sydd wedi ei gario drosodd i 2022/23. Adroddodd bod arian ar gael yn dilyn edrych yn fanylach dros y gyllideb ar gyfer cynnal 30 sesiwn Clwb Ieuencid yn hytrach na 20 fel y trafodwyd yn gynharach. Wedi ei ychwanegu i gyllideb ddrafft 2022/23 mae cyfraniad i'r eisteddfod a Pharc BMX Talysarn ac mae angen ychwanegu ystafelloedd newid Talysarn iddo hefyd. Trafodwyd y bydd y cyngor presennol yn dod i ben mis Mai a chynghor newydd yn dechrau ar ôl 5ed Mai ac felly penderfynwyd gadael trafod hyn tan fydd y cyngor newydd yn dechrau. Cytunwyd yn unfrydol gyda hyn.

8. TAFLEN ARIANNOL A CHYLLID - roedd hyn wedi ei drafod eisoes ym mhwynt 7 felly dim byd pellach i'w drafod. Holodd Ceri os oedd arian wrth gefn ar gyfer costau cyfreithiol pe bai unrhyw beth yn codi unrhyw dro ac esboniwyd bod yn aelod o Unllais yn golygu bod cyngor ar gael cyn symud ymlaen i gyfraith.

9. CYFRANIAD ARIANNOL I EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLYN AC EIFIONYDD 2023 - gofynnwyd i'r clerc holi cyngorau eraill o fewn yr ardal faint oeddynt hwy yn ei gyfrannu.

10. LLWYBRAU A MYNWENTYDD - esboniwyd bod cyfarfod wedi bod ar y safle yn Macpela er mwyn edrych ar gyflwr beddi yno. Adroddwyd bod rhai ddim yn cadw at y rheolau sydd felly yn golygu ei bod yn anodd pan mae'r contractwyr eisiau torri gwair ayyb. Dywedodd Dafydd y buasai yn edrych dros y rheolau a rhoi sylwadau o beth ellid ei newid a'i ailwampio. Trafodwyd yn dilyn gwneud y gwaith ar y rheolau i yrru copi i bob ymgymerwr angladdau a dweud wrthynt bwysigrwydd adrodd hyn i'r teuluoedd wrth drafod gyda hwy. Bydd hefyd angen edrych ar brisiau defnyddio'r fynwent. Y clerc i edrych ar ffigyrau cyngorau eraill ac yna gellir ei drafod yn is-bwyllgor mynwentydd nesaf a fydd yw cynnal ar ôl 10fed Mai. Adroddodd Gwyndaf ei fod yn disgwyl am ddyfynbris newydd am y gwaith ffensio yn Macpela.

11. MATERION PENTREFI - PENYGOES - adroddwyd nad yw'r cerbiau yn Nhrem Yr Wyddfa dal heb eu trwsio a bod tyllau yn y ffordd ger Talar Deg. Peth amser yn nol cafwyd cwyn ynglŷn â fan sydd yn parcio ar y palmant yn y Stryd Fawr - mae hyn dal yn digwydd ac angen gwneud cwyn newydd gan ei fod yn beryglus. **LLANLLYFNI** - adroddwyd bod palmentydd y pentref wedi eu tarmacio yn ddiweddar ond bod safon y gwaith ddim yn dda a bod cyflwr y ffordd yn dilyn y gwaith yn siomedig a heb eu glanhau ar ôl y gwaith. **NANTLLE** - cwynion bod goryrru yn dod i mewn i'r pentref ac sydd yn beryglus. Cynigwyd i wahodd PCSO Aled Hughes i gyfarfod mis Mehefin i drafod y pryder hwn. Adroddwyd hefyd bod defaid yn cerdded y pentref sydd yn achosi niwsans i'r trigolion - penderfynwyd trafod hyn gydag Aled hefyd. **TALYSARN** - adroddwyd bod dwr yn byrlymu o'r draen (manhole) sydd ger mynedfa Pant Du (ar y llwybr cerdded wedi pasio'r bolardiau). Holwyd pryd fydd chwyn yn cael eu chwistrellu. Mae cyflwr ffyrdd pob pentref yn cael ei godi unwaith eto. Y clerc i gysylltu gyda'r adrannau o fewn y cyngor am y materion hyn.

12. GOLAU NADOLIG LLANLLYFNI - wedi derbyn pris gan LITE gan fod prisiau wedi codi ers llynedd, ond RJ Electrics am roi pris hefyd gan eu bod yn gystadleuol. Disgwyl am bris gan RJ Electrics, ond penderfynwyd yn unfrydol i fynd gyda'r pris rhatach a fydd yn cael ei dderbyn. Y clerc i archebu'r golau ar ôl derbyn pris RJ.

13. DIWEDDARIAD PARC SGLEFRIO A THRAC BMX TALYSARN - adroddwyd bod trafodaeth wedi dechrau gyda CPD Talysarn Celts i weld os gallan nhw gymryd y brydles.

14. CYFARFOD FFRWD GWAITH CYMUNEDOL A'R FFRWD GWAITH IECHYD - cyfarfod i'w gynnal gan Grŵp Cynefin ac yn gofyn am gynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned. Dafydd, Barry a Ffion am fynychu'r cyfarfod.

15. CEISIADAU CYNLLUNIO –

C22/0167/22/DT – 43 Stryd Fawr, Penygroes – Estyniad deulawr cefn – dim gwrthwynebiad

C22/0171/22LL - Rhan o lain 8, Penygroes - Codi 5 uned ddiwydiannol ysgafn - dim gwrthwynebiad

C21/1184/22/LL – Hen safle Northwood – Is-rannu rhan o'r adeilad ffactori bresennol – dim gwrthwynebiad

C22/0219/22/AC - Cochrwd, Heol Y Bedyddwyr, Penygroes - Cais diwygio amod 5 ar ganiatâd cynllunio

C15/0855/22/LL - dim gwrthwynebiad.

16. GOHEBIAETH - cafodd pawb gyfle i weld yr ohebiaeth a rhoi sylw - ond nid oedd dim yn codi, heblaw cynigwyd y dylid rhannu'r pwynt olaf ar dudalen 'Facebook' Cyngor Cymuned.

- Cylch Iaith – Gwarchod Enwau Lleodedd Cymraeg
- Cyngor Gwynedd – Rhybudd cau Ffordd Llwyndu, Ffordd y Brenin a Hen Lon, Penygroes ar 21 Mawrth
- Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin - Chwilfa Fawr y Dolydd
- UnLlais – Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig 2022
- UnLlais – Gweithio'n ddoethach: strategaeth gweithio o bell i Gymru
- Cyngor Gwynedd – Adran Tai ac Eiddo – Ymgynghoriad cyhoeddus – Holiadur anghenion tai

17. MATERION ARIANNOL – cytunwyd i dalu popeth yma.

- Nia Jones - Ffôn a rhyngrwyd - **£25.00**
- Nia Jones - Zoom - **£14.39**
- Nia Jones – stampiau a deunyddiau ysgrifennu - **£25.45**